Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# COD YMDDYGIAD AELODAU'R BWRDD LLYWODRAETHWYR A'I BWYLLGORAU

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Bwriedir i'r Cod hwn gael ei ddefnyddio fel canllaw i aelodau'r Bwrdd Llywodraethwyr a'i Bwyllgorau (gan gynnwys aelodau cyfetholedig o bob un o bwyllgorau'r Bwrdd). Mae'n nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddynt wrth gynnal eu dyletswyddau cyfreithiol, ac yn hynny o beth y mae wedi ei anelu at hyrwyddo llywodraethiant effeithiol a llawn gwybodaeth. Ni fwriedir iddo fod yn ddatganiad cyfreithiol terfynol neu awdurdodol.

1.2 Yn ogystal â'r Cod yma, argymhellir fod aelodau yn ymgyfarwyddo â'r dogfennau canlynol:

a) Yr Offeryn Llywodraethu;
b) Yr Erthyglau Llywodraethu;
c) Yr Archebion Sefydlog;
d) Y Fframwaith Strategol Corfforaethol
e) Y Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd y cytunwyd arno gyda Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC);
f) Y Cod Llywodraethiant Addysg Uwch, a gyhoeddir gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol
g) Y Cod Rheolaeth Ariannol (CCAUC)

1.3 Nid yw'r uchod yn ddatganiad trwyadl o ddyletswyddau, pwerau neu amodau a dylai llywodraethwyr gyfeirio at y dogfennau ffynhonnell a restrir. Os yw llywodraethwr mewn amheuaeth ynglŷn ag amodau unrhyw un o'r dogfennau hyn, dylent gysylltu â Chlerc y Bwrdd.

1.4 Bydd derbyn penodiad fel aelod y Bwrdd Llywodraethwyr yn cael ei ddehongli fel derbyn y Cod hwn.

## 2. GWERTHOEDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Yn rhinwedd eu swydd gorfforaethol, mae'n rhaid i'r llywodraethwyr weithredu bob amser o fewn saith egwyddor bywyd cyhoeddus (gweler egwyddorion 'Nolan' a restrir yn atodiad 1) a dylent:

2.1 cydsynio â'r safonau uchaf o wedduster yn ymwneud â **didueddrwydd, uniondeb a gwrthrychedd** o ran stiwardiaeth arian cyhoeddus a rheoli busnes y Bwrdd Llywodraethwyr;

2.2 mwyhau **gwerth am arian** trwy sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu cyflenwi yn y modd mwyaf effeithlon a darbodus, o fewn adnoddau sydd ar gael, a chan ddilysu perfformiad yn annibynnol ble bynnag y bo'n ymarferol;

2.3 bod yn **atebol** i CCAUC, defnyddwyr gwasanaethau, dinasyddion unigol, myfyrwyr a staff dros weithgareddau'r Brifysgol, ei stiwardiaeth o arian cyhoeddus ac i ba raddau y mae targedau a nodau perfformiad allweddol wedi cael eu cwrdd;

2.4 yn unol â pholisi'r Llywodraeth ar **fod yn agored,** cydsynio'n llawn ag egwyddorion Siarter Dinasyddion a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a cheisio trosglwyddo polisïau a phenderfyniadau'r Bwrdd er mwyn sicrhau eu bod yn eglur ac yn agored.

## 3. PWERAU

3.1 Mae llywodraethwyr yn gyfrifol am wneud penderfyniadau sydd o fewn y pwerau a roddir i'r Brifysgol trwy Adran 124 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (a ddiwygiwyd gan Ddeddf Addysg Uwch a Phellach 1992). Ceir crynodeb o'r pwerau hyn yn atodiad 2.

## 4. RÔL CADEIRYDD Y BWRDD

4.1 Mae Cadeirydd y Bwrdd, ynghyd â'r Is-Ganghellor a'r Prif Weithredwr, lle bo'n briodol, yn benodol gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth strategol effeithiol ynghylch materion megis:

a. llunio strategaeth y Bwrdd ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau statudol;

b. annog safonau uchel o wedduster, a hyrwyddo'r defnydd effeithiol ac effeithlon o staff ac adnoddau eraill trwy'r corff;

c. sicrhau fod y Bwrdd, wrth ddod i benderfyniadau, yn cymryd ystyriaeth briodol o'r arweiniad a ddarperir gan CCAUC a chyrff perthnasol eraill;

d. cynrychioli barn y Bwrdd i'r cyhoedd, i CCAUC a chyrff perthnasol eraill; a

e. darparu asesiad o berfformiad Llywodraethwyr unigol pan fyddant yn cael eu hystyried ar gyfer ailbenodiad i'r Bwrdd.

4.2 Dylai Cadeirydd y Bwrdd sicrhau fod y Bwrdd yn cyfarfod ar adegau rheolaidd trwy gydol y flwyddyn a bod cofnodion y cyfarfodydd yn cofnodi'r penderfyniadau a wneir yn gywir.

4.3 Dylai Cadeirydd y Bwrdd sicrhau fod pob Aelod o'r Bwrdd, wrth ymgymryd â'u swydd, yn cael eu briffio'n llawn ynglŷn â thelerau eu penodiad, ac ynglŷn â'u dyletswyddau, hawliau, a chyfrifoldebau, ac annog y llywodraethwyr i fynychu digwyddiadau ymsefydlu a datblygu perthnasol.

4.4 Mae Prifysgol Glyndŵr wedi llunio disgrifiadau swydd ar gyfer swyddi Llywodraethwyr, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Bwrdd a Chadeiryddion Pwyllgor.

### Cyfathrebu gyda CCAUC

4.5 Bydd cyfathrebu rhwng y Bwrdd a CCAUC yn digwydd trwy'r Cadeirydd fel arfer, ac eithrio pan fo'r Bwrdd wedi cytuno y dylai Aelod unigol weithredu ar ei ran. Er hynny, mae gan Aelod unigol yr hawl i gysylltu â CCAUC ynghylch unrhyw fater y mae'n credu sy'n codi materion pwysig yn ymwneud â'u dyletswyddau fel Aelod o'r Bwrdd. Mewn achosion o'r fath, dylid ceisio cytundeb gweddill y Bwrdd fel arfer. Y prif bwynt cysylltu rhwng y Brifysgol a CCAUC ar faterion pob dydd fel arfer fydd yr Is-Ganghellor a'r Prif Weithredwr, neu aelod arall o staff sydd â chaniatâd i weithredu ar ei ran.

## 5. CYFRIFOLDEBAU LLYWODRAETHWYR UNIGOL

5.1 Mae'n rhaid i lywodraethwyr gydsynio ag amodau Offerynnau ac Erthyglau Llywodraethu'r Brifysgol, yn benodol y cyfrifoldebau a roddir i'r Gorfforaeth trwy Erthygl 3 (1) a restrir yn atodiad 3.

5.2 Mae gan bob llywodraethwr unigol ddyletswydd ymddiriedol i'r Brifysgol fel llywodraethwr ac fel ymddiriedolwr elusen. Mae hyn yn golygu y dylai llywodraethwyr weithredu yn ddidwyll ac er lles gorau'r Brifysgol a gweithredu yn onest, yn ddiwyd ac, yn amodol ar y gofynion sy'n ymwneud â chyfrifoldeb ar y cyd, yn annibynnol.

5.3 Gellir cymryd 'lles gorau'r Brifysgol' i olygu, yn anad dim, buddiannau ei myfyrwyr a defnyddwyr eraill gwasanaethau'r Brifysgol a diogelu arian cyhoeddus. Dylai'r llywodraethwyr barchu'r buddiannau hyn, ac ni ddylent gamddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn ystod ei gwasanaeth cyhoeddus er mwyn elw personol nac er mwyn dibenion gwleidyddol, na cheisio defnyddio cyfle gwasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo eu buddiannau preifat eu hunain na rhai cyrff na busnesau na phobl gysylltiedig eraill. Ni phenodir llywodraethwyr fel 'cynrychiolwyr' neu 'ddirprwyon' gan unrhyw gorff allanol, ac ni allant gael eu rhwymo yn gyfreithiol gan fandadau a roddir gan eraill.

5.4 Ni ddylai llywodraethwyr weithredu mewn modd a fydd yn dwyn anfri ar y Bwrdd.

5.5 Dylai llywodraethwyr ymgyfarwyddo â Polisi 'Achwyn' a pholisïau cyfle cyfartal y Brifysgol.

### Diogelu arian cyhoeddus

5.6 Mae'n ddyletswydd ar lywodraethwyr sicrhau fod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu – sydd ar gyfer y diben hwn yn cynnwys pob math o anfonebau yn sgil ffioedd, taliadau a ffynonellau eraill – a gwarchodaeth gywir asedau sydd wedi cael eu hariannu yn gyhoeddus. Mae'n rhaid iddynt gymryd mesurau priodol i sicrhau fod y Bwrdd bob amser yn gweithredu mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol â phosibl, gydag ystyriaeth lawn i'r ddarpariaeth statudol berthnasol ac i arweiniad perthnasol gan CCAUC a'r Comisiwn Elusennau.

### Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol

5.7 Mae gan aelodau hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol, cyn belled â'u bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyhoeddus gwleidyddol ac yn gweithredu'n bwyllog, yn enwedig o ran gwaith Bwrdd y Llywodraethwyr. Ynghylch materion sy'n effeithio ar y gwaith hwnnw yn uniongyrchol, ni ddylent wneud areithiau gwleidyddol na chymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol eraill.

5.8 Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol yn cael ei fonitro gan y Clerc ar ran y Bwrdd, a bob blwyddyn gofynnir i'r aelodau, gan gynnwys yr aelodau cyfetholedig, ddatgan gweithgareddau gwleidyddol yn y ffurflen datgan buddiannau a anfonir o Swyddfa'r Clerc, fel sy'n arferol. Dylai'r aelodau nodi, os byddant yn cael eu hethol ac yn ymgymryd â swydd wleidyddol, y bydd yn rhaid iddynt ymddiswyddo fel aelod o'r Bwrdd a'i bwyllgorau neu, yn achos aelodau cyfetholedig, fel aelod o bwyllgor.

### Mynychu cyfarfodydd

5.9 Dylai llywodraethwyr roi blaenoriaeth uchel i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Llywodraethwyr ac unrhyw un o bwyllgorau'r Bwrdd y maent yn aelodau ohonynt, pan nad atalir hwy yn rhesymol rhag gwneud hynny. Bydd hyn yn galluogi'r Brifysgol i elwa o'r profiad a'r cyfraniad unigol a wneir gan y Llywodraethwyr tuag at ddatblygu polisïau a strategaethau a monitro cynnydd.

5.10 Bydd yr Erthygl Llywodraethu, paragraff 6(3), a'r rheol sefydlog 4.5 yn berthnasol o ran cael diswyddo Llywodraethwr o ganlyniad i faterion yn ymwneud ag absenoldeb neu pan fo llywodraethwr "yn methu neu'n anghymwys i weithredu swyddogaethau aelod".

**Ymddygiad personol**

5.11 Dylai llywodraethwyr gydsynio ag egwyddorion priodol ymddygiad wrth gynnal materion cyhoeddus. Dylai aelodau sy'n cyfrannu at y Bwrdd gael yr hawl i deimlo eu bod yn cyfrannu mewn modd onest, agored ac amhleidiol a heb orfod ystyried a fydd eu sylwadau yn cael eu dyfynnu y tu allan i gyfarfodydd. Gan hynny mae'n rhaid i bob aelod sylweddoli fod cynnwys trafodaethau'r Bwrdd a safbwyntiau a fynegir gan aelodau unigol yn gyfrinachol.

5.12 Mae'r Bwrdd yn cynnal ei fusnes yn agored a gwneir penderfyniadau'r Bwrdd yn hysbys trwy gyhoeddi ei gofnodion. Mae gan Gadeirydd y Bwrdd a'r Is-Ganghellor a'r Prif Weithredwr gyfrifoldeb penodol dros sicrhau cyfathrebu gyda staff, myfyrwyr a'r cyhoedd, er y dirprwyir hyn yn aml i aelodau staff uwch o ran cyfathrebu â sefydliadau ac yn achlysurol o ran cyfathrebu cyhoeddus. Dylai aelodau unigol y Bwrdd, yn ogystal â chydsynio â rheolau cyfrinachedd trafod, osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfa o ymddangos i weithredu fel llefarydd ar ran y Bwrdd heb gymeradwyaeth flaenorol gan Gadeirydd y Bwrdd.

**Dirprwyo**

5.13 Dylai llywodraethwyr hefyd ystyried y cyfrifoldebau gwahanol ond cyflenwol a roddir i'r Is-Ganghellor fel Prif Weithredwr y Brifysgol. Tra mai Bwrdd y Llywodraethwyr sy'n pennu polisi strategol a'r cyfeiriad cyffredinol, ac yn monitro perfformiad yr Is-Ganghellor ac unrhyw ddeiliaid swyddi uwch eraill, rôl yr Is-Ganghellor yw gweithredu penderfyniadau'r Bwrdd a rheoli materion y Brifysgol o fewn y cyllidebau a'r fframweithiau a osodir gan y Bwrdd.

5.14 Fe allai'r Bwrdd benderfynu dirprwyo, ble mae ganddo'r grym i wneud hynny, cyfrifoldeb dros faterion penodedig i Aelodau unigol gan gynnwys yr Is-Ganghellor a'r Prif Weithredwr, neu bwyllgorau'r Bwrdd o dan rymoedd dirprwyedig, a dylai'r rhain gael eu cofnodi mewn cofnodion ysgrifenedig a gyflwynir i gyfarfodydd llawn o'r Bwrdd. Mae yna Gynllun Dirprwyo mewn grym hefyd.

5.15 Yr Is-Ganghellor hefyd yw'r 'Swyddog Atebol' o dan y Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd gyda CCAUC. Mae'n atebol i Brif Weithredwr CCAUC am yr adnoddau o dan ei reolaeth. Hanfod y swydd yw cyfrifoldeb personol dros briodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus sydd ar gael i'r Bwrdd; dros gadw cyfrifon cywir; dros weinyddiaeth ddoeth a darbodus; dros osgoi gwastraff ac afradlondeb; a thros y defnydd effeithlon ac effeithiol adnoddau yn eu gofal. Mae gan y Swyddog Atebol gyfrifoldeb i sicrhau fod cyngor priodol yn cael ei roi i'r Bwrdd ar y materion hyn i gyd.

5.16 Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am fonitro perfformiad yr Is-Ganghellor a'r Prif Weithredwr. Ymgymerir â hyn gan Gadeirydd y Bwrdd a rhennir y canlyniadau gyda'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a'r Bwrdd, fel bo'n briodol.

## 6. GWRTHDARO BUDDIANNAU

6.1 Dylai llywodraethwyr geisio osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae gwrthdaro (gwirioneddol neu bosibl) rhwng eu buddiannau personol a'u dyletswyddau i'r Brifysgol ac ni ddylent ganiatáu i unrhyw wrthdaro buddiannau godi a allai amharu ar eu barn annibynnol.

6.2 Mae gan lywodraethwyr ddyletswydd i ddatgelu unrhyw fuddiant ariannol sydd ganddynt, neu a allai fod ganddynt, wrth gyflenwi gwaith neu nwyddau i neu at ddibenion y Brifysgol; unrhyw gytundeb neu gytundeb arfaethedig yn ymwneud â'r Brifysgol, neu unrhyw fater arall sy'n berthnasol i'r Brifysgol.

6.3 Fodd bynnag, nid oes rhaid i fuddiant fod yn un ariannol at dibenion datgelu. Os yw'n hysbys yn gyhoeddus, os yw'n debygol neu y byddai'r debygol o amharu ar farn annibynnol llywodraethwyr, dylai'r buddiant, ariannol neu fel arall, gael ei adrodd i'r Clerc a'i ddatgelu i'r Bwrdd cyn i'r mater yn ymwneud â'r buddiant gael ei ystyried.

6.4 Mae'n bosibl y gofynnir i lywodraethwyr ymneilltuo o'r rhan honno o'r cyfarfod sy'n ystyried y mater sy'n ymwneud â'r buddiant, ac ni ddylai ar unrhyw gyfrif gael pleidleisio ynglŷn â'r mater.

6.5 Ni ddylai llywodraethwyr dderbyn rhoddion, lletygarwch na buddion o unrhyw fath gan drydydd parti a allai gael ei weld yn effeithio ar eu barn bersonol neu eu huniondeb. Dylid adrodd unrhyw gynnig rhodd, lletygarwch neu fudd o'r fath i'r Clerc ar unwaith.

6.6 Bydd y Clerc yn cadw Cofrestr Buddiannau a fydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld ar dudalennau gwe y Brifysgol. Gwahoddir llywodraethwyr i ddatgelu i'r Brifysgol fel rhan o'r drefn pob buddiant busnes, ariannol neu fel arall, sydd ganddynt hwy neu (hyd y gwyddant) sydd gan eu gŵr neu wraig neu gymar, eu plant neu unrhyw berthnasau agos eraill. Dylai llywodraethwyr roi gwybod i'r Clerc pan fydd eu hamgylchiadau yn newid a phan fyddant yn ennill neu'n colli buddiannau.

## 7 CYD-GYFRIFOLDEB

7.1 Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn cael ei weithredu gan y llywodraethwyr yn gwneud penderfyniadau mwyafrif mewn cyfarfodydd â chworwm. Gan hynny, mae penderfyniad y Bwrdd, hyd yn oed pan nad yw'n un unfrydol, yn benderfyniad a wneir gan y llywodraethwyr ar y cyd ac mae gan bob llywodraethwr unigol ddyletswydd i gefnogi'r penderfyniad, p'un ai oedd yn bresennol neu beidio yng nghyfarfod y Bwrdd pan wnaed y penderfyniad.

7.2 Os bydd llywodraethwr yn anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan y Bwrdd, dylai'r mater o anghydfod gael ei drafod yn y cyfarfod. Os bydd llywodraethwr yn anghytuno'n chwyrn, dylid ymgynghori â'r Cadeirydd ac, os oes angen, bydd y mater yn cael ei godi gyda'r Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf.

## 8. ATEBOLRWYDD PERSONOL LLYWODRAETHWYR

8.1.01 Er bod unrhyw achos cyfreithiol a gychwynnir gan drydydd person yn debygol o gael ei gymryd yn erbyn y Bwrdd fel endid, mewn achosion eithriadol (sifil, neu mewn ambell achos, troseddol) fe ellid dod ag achos yn erbyn Cadeirydd y Bwrdd neu lywodraethwyr unigol eraill. Er enghraifft, fe allai llywodraethwr fod yn bersonol gyfrifol os yw'n gwneud datganiad twyllodrus neu esgeulus sy'n arwain at golled i'r trydydd person. Fe allai llywodraethwr sy'n camddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn rhinwedd ei swydd fod yn agored i gyhuddiad o dor-ymddiriedaeth o dan gyfraith gwlad neu o dan ddeddfwriaeth masnachu mewnol.

8.2 Fodd bynnag, mae'r Brifysgol wedi nodi na fydd rhaid i lywodraethwyr unigol sy'n ymddwyn yn onest, yn rhesymol, yn ddidwyll a heb esgeulustod wynebu, o'u hadnoddau personol eu hunain, unrhyw atebolrwydd sifil personol a achosir wrth iddynt weithredu neu honni iddynt weithredu swyddogaethau'r Bwrdd. Mae gan y Brifysgol Atebolrwydd Llywodraethwyr, Cyfarwyddwr a Swyddogion mewn grym lle mae gan y Brifysgol yswiriant o hyd at £10miliwn mewn unrhyw un digwyddiad.

8.3 Fe allai Llywodraethwyr sydd eisiau mwy o gyngor, lle bo'n briodol, ymgynghori â chynghorwyr cyfreithiol y Bwrdd trwy Glerc y Bwrdd neu'r Is-Ganghellor a'r Prif Weithredwr.

## 9. Adolygu'r Cod Ymddygiad

9.1 Dylai'r Bwrdd adolygu'r Cod Ymddygiad bob tair blynedd.

*Adolygu'r Cod*
*Cytunwyd ar fesurau ar gyfer monitro ar yr 20fed o Hydref 2005 (cofnod 05.14)*
*Adolygwyd ym mis Gorffennaf 2006 – dim newidiadau (cofnod 05.106)*
*Adolygwyd a diweddarwyd ar y 15fed o Ragfyr 2006 (cofnod 06.48)*
*Adolygwyd ym mis Gorffennaf 2007 – dim newidiadau (cofnod 06.95)*
*Adolygwyd ym mis Gorffennaf 2008 – dim newidiadau (cofnod 08.21)*
*Diweddariad gyda therminoleg i adlewyrchu Statws Prifysgol – mis Gorffennaf 2008*
*Adolygwyd a diweddarwyd ar y 10fed o Orffennaf 2009 (Cofnod 08.124)*
*Adolygwyd ym mis Gorffennaf 2010 – (cofnod 09.107)*
*Adolygwyd ym mis Gorffennaf 2011 – (cofnod 10.102)*
*Adolygwyd ym mis Gorffennaf 2012 – (cofnod 11.95)*
*Adolygwyd ym mis Gorffennaf 2013 – (cofnod 12.87)*
*Adolygwyd ym mis Gorffennaf 2014 (cofnod 13.103)*
*Adolygwyd a diweddarwyd ar y 10fed o Orffennaf 2015 (cofnod 14.123)*
*Adolygwyd a diweddarwyd ar yr 8fed o Orffennaf 2016 (cofnod 15.94)*
*Adolygwyd a diweddarwyd ar y 15fed o Fehefin 2017 (N&G)/Ardystiwyd gan y Bwrdd yng Ngorffennaf 2017 (cofnod 16.85.04)*
*Adolygwyd a diweddarwyd ym mis Mehefin 2019 (N&G)/Ardystiwyd gan y Bwrdd yng Ngorffennaf 2019*
*Adolygwyd a diweddarwyd ym mis Mehefin 2020 (cofnod 19.24) (N&G)*
*Adolygwyd a diweddarwyd ym mis Mehefin 2024 (cofnod 23.134)*

**ATODIAD 1**

## SAITH EGWYDDOR BYWYD CYHOEDDUS

### Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn cael budd ariannol neu fudd materol arall ar eu cyfer hwy eu hunain, eu teuluoedd na'u cyfeillion.

### Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus roi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai ddylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

### Gwrthrychedd

Wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu cytundebau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddion, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud dewisiadau ar sail haeddiant.

### Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt dderbyn unrhyw arsylwi a fo'n briodol i'w swyddi.

### Bod yn Agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynglŷn â'r penderfyniadau a'r gweithredoedd a wneir ganddynt. Dylent esbonio eu penderfyniadau ac ni ddylent gyfyngu ar wybodaeth ac eithrio pan fo'n amlwg bod hynny er budd y cyhoedd.

### Gonestrwydd

Mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codio mewn modd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

### Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chynnal yr egwyddorion hyn trwy arweiniad ac esiampl.

*Cymeradwywyd Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus gan y Llywodraeth yn "Gwario Arian Cyhoeddus@ Materion Rheolaeth ac Archwilio". Mawrth 1996*

**ATODIAD 2**

## CRYNODEB O BWERAU'R GORFFORAETH

O dan adran 124 (1) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 fel y'i diwygiwyd ("y Ddeddf"), gall corfforaeth addysg uwch:

a) ddarparu addysg uwch;

b) ddarparu addysg bellach; a

c) chynnal ymchwil a chyhoeddi canlyniadau'r ymchwil neu unrhyw ddeunydd arall sy'n deillio o neu'n gysylltiedig â'r ymchwil mewn modd y gwêl y gorfforaeth yn addas.

O dan adran 124 (2) o'r Ddeddf, gall corfforaeth addysg uwch hefyd wneud unrhyw beth y gwêl yn angenrheidiol neu'n gyfleus at ddibenion neu mewn cysylltiad â gweithredu unrhyw un o'r pwerau a roddwyd i'r gorfforaeth gan is-adran (1) uchod, gan gynnwys y pwerau canlynol yn arbennig:

a) darparu cyfleusterau o unrhyw ddisgrifiad y gwêl y gorfforaeth yn angenrheidiol neu'n gyfleus at ddibenion neu mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw weithgareddau (gan gynnwys llety preswyl a chyfleusterau adloniadol i fyfyrwyr a staff a chyfleusterau i gwrdd ag anghenion myfyrwyr gydag anawsterau dysgu);

b) cyflenwi nwyddau a gwasanaethau;

c) caffael a gwaredu tir ac eiddo arall;

d) gwneud cytundebau, gan gynnwys yn arbennig:

    i. cytundebau i gyflogi athrawon a staff eraill at ddibenion neu mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw weithgareddau o'r fath; a

    ii. chytundebau o ran cyflawni unrhyw weihgareddau o'r fath gan y gorfforaeth;

e) benthyca symiau y gwêl y gorfforaeth yn addas at ddibenion cyflawni unrhyw weithgareddau y mae ganddi'r pŵer i'w cyflawni neu ddiwallu unrhyw atebolrwydd a drosglwyddir iddynt o dan adran 126 o'r Ddeddf ac, o ran benthyca o'r fath, y pŵer i gytuno ar unrhyw forgais, nawdd neu ernes arall o ran unrhyw dir neu eiddo arall sy'n perthyn i'r gorfforaeth. *Ni chaiff y pŵer hwn ei weithredu heb ganiatâd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru*.

f) buddsoddi unrhyw symiau nad oes eu hangen ar unwaith at unrhyw un o'r dibenion a restrir ym mharagraff (e) uchod;

g) derbyn rhoddion o arian, tir neu eiddo aral a'u defnyddio, neu eu cadw a'u gweinyddu ar ymddiriedaeth at unrhyw un o'r dibenion hynny; a

h) gwneud unrhyw beth sy'n gysylltiedig ag ymddygiad sefydliad addysgol sy'n darparu addysg uwch neu bellach.

**ATODIAD 3**

## CRYNODEB O GYFRIFOLDEBAU AELODAU'R BWRDD LLYWODRAETHWYR

O dan Erthygl 3 (1) o Erthyglau Llywodraethu'r Brifysgol, bydd y Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am

i. bennu cenhadaeth a chymeriad addysgol y Brifysgol a goruchwylio ei gweithgareddau;

ii. y defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, solfedd y Brifysgol a'r Gorfforaeth a diogelu eu hasedau;

iii. cymeradwyo amcangyfrifon blynyddol incwm a gwariant;

iv. penodi, graddio, diarddel, gwahardd a phennu cyflog ac amodau gwasanaeth deiliaid swyddi uwch;

v. gwerthuso'r Is-Ganghellor a'r Clerc; a

vi. gosod y fframwaith ar gyfer cyflog ac amodau staff eraill.

Ni chaniateir Erthygl 5 (4) o'r Erthyglau, fodd bynnag, i ddirprwyo'r canlynol:

i. pennu cenhadaeth a chymeriad addysgol y Brifysgol;

ii. cymeradwyo amcangyfrifon blynyddol incwm a gwariant;

iii. sicrhau solfedd y Brifysgol a'r Gorfforaeth a diogelu eu hasedau;

iv. penodi neu ddiswyddo'r Is-Ganghellor; ac

v. amrywio neu ddiddymu'r Erthyglau.